# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 07 Gorffennaf 2025

## SL(6)628 – Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2025

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu"). Mae’r Rheoliadau Adeiladu yn gosod gofynion ar gyfer gwaith adeiladu ac yn nodi gweithdrefnau ar gyfer goruchwylio’r gwaith hwnnw.

Ar hyn o bryd mae rheoliad 6(1)(c) a pharagraff B4(1) o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol bod waliau allanol unrhyw adeilad presennol sy'n fwy na 15 metr o uchder, pan fo newid sylweddol yn y defnydd, yn gwrthsefyll lledaeniad tân yn ddigonol. Mae'r Rheoliadau hyn yn ehangu cwmpas y gofyniad hwnnw fel y bydd yn berthnasol i unrhyw adeilad dros 11 metr o uchder yn y dyfodol.

Mae rheoliad 7(2) o'r Rheoliadau Adeiladu yn gymwys i adeilad perthnasol (“relevant building”). Ar hyn o bryd adeilad perthnasol yw un sydd â llawr 18 metr neu fwy uwchben lefel y ddaear sy'n cynnwys un neu fwy o anheddau, sefydliad, neu ystafell at ddibenion preswyl (ond ac eithrio hosteli, gwestai neu dŷ preswyl). Mae rheoliad 7(2) yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl ddeunyddiau adeiladu sy'n dod yn rhan o wal allanol, neu atodyn penodedig i wal adeilad perthnasol, ag o leiaf Dosbarthiad Ewropeaidd A2-s1, d0 neu A1, wedi'u dosbarthu yn unol â BS EN 13501-1:2018 o'r enw "Fire classification of construction products and building elements. Classification using test data from reaction to fire tests”. Mae'r Rheoliadau hyn yn ehangu cwmpas y gofyniad hwnnw fel y bydd yn berthnasol i hosteli, gwestai a thai preswyl dros 18 metr o uchder yn y dyfodol. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwahardd deunydd cyfansawdd metel perthnasol rhag dod yn rhan o’r wal allanol neu o atodyn penodedig pan gynhelir gwaith adeiladu. Maent yn esemptio ceblau ffeibr optig a chydrannau dyfeisiau cysgodi solar o’r gofyniad hwn ac yn estyn yr esemptiad presennol ar ddeunyddiau inswleiddio a deunyddiau diddosi a ddefnyddir o dan lefel y ddaear, i ganiatáu defnydd o’r deunyddiau hynny hyd at 300mm uwchben lefel y ddaear.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau trosiannol fel na fydd y newidiadau a gyflwynir ganddynt yn gymwys pan fo hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol wedi ei roi i awdurdod lleol, neu pan fo planiau llawn wedi eu hadneuo gydag awdurdod lleol, cyn y diwrnod y daw’r Rheoliadau hyn i rym, a bod y gwaith naill ai wedi dechrau erbyn y diwrnod hwnnw neu ei fod yn dechrau o fewn 6 mis sy’n dechrau â’r diwrnod hwnnw.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Adeiladu 1984

**Fe’u gwnaed ar:** 17 Mehefin 2025

**Fe’u gosodwyd ar:** 19 Mehefin 2025

**Yn dod i rym ar:** 20 Rhagfyr 2025